WG55492 **ISBN 978-1-80853-523-9**

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH

CANLLAWIAU DDEDDF TEITHIO LLESOL 2026

Teitl y cynnig:	Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol 2026
Swyddogion sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) a'r tîm):	Tom Wharf CEng MICE – Pennaeth Dylunio, Swyddfa Dylunio Teithio Llesol, Trafnidiaeth Cymru
Adran:	Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru
Pennaeth yr Adran / Uwch Swyddog Cyfrifol:	Natalie Grohmann/ Alex Walters
Ysgrifennydd y Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:	Mark Hooper AS, Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth
Dyddiad Dechrau:	Ionawr 2025

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

Crynodeb o'r materion

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cofnodi effaith y newidiadau a wnaed wrth lunio trydydd fersiwn o Ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2026. Mae'r fersiwn diwygiedig hwn yn cryfhau hygyrchedd a chynhwysiant, yn atgyfnerthu tystiolaeth newydd ac arferion proffesiynol, ac yn datrys yr anghysondebau yn fersiwn 2021. Erys y rhain yn ganllawiau technegol craidd ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu, dylunio a darparu seilwaith cerdded, olwyno a beicio o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyflwynir yn Atodiad B yn asesu bod Canllawiau 2026 yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar nodweddion gwarchodedig. Bydd Canllawiau 2026 yn gwella hygyrchedd a chynhwysiant wrth fuddsoddi mewn teithio llesol, gan gefnogi manteision hirdymor teithio llesol ar raddfa'r boblogaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

Cyd-destun a rhesymeg

Y sbardun ar gyfer diweddaru Canllawiau 2021 yw gwella'r dosbarthiad teg o fanteision teithio llesol, adlewyrchu datblygiadau mewn ymchwil a dulliau technegol o weithredu, yn ogystal â chynnal a chadw dogfennau yn rheolaidd i ddarparu dyluniad gwell a fwy hygyrch o wybodaeth.

Mae tystiolaeth o setiau data agwedd ac ymddygiad y cyhoedd yn dangos galw heb ei fodloni am rwydweithiau teithio llesol diogel a chynhwysol, gyda dim ond 38% o drigolion yn ystyried beicio i fod yn ddiogel, a 50% eisiau cerdded/olwyno mwy a 43% eisiau beicio mwy [1] [38].

Mae'r ymchwil cydraddoldeb a hygyrchedd diweddaraf yn tynnu sylw at dystiolaeth o allgáu a achosir gan ffurfweddiadau strydoedd penodol (e.e. ffyrdd osgoi safleoedd bysiau, esgynloriau bysiau a dulliau cyfunol o drin mynedfeydd i ffyrdd ymyl) ar gyfer pobl ddall a phobl ag amhariad ar eu golwg a defnyddwyr anabl eraill. Mae hyn wedi arwain at gamau lliniaru yn y diweddariad hwn [2][3][4].

Gan gydnabod cynulleidfa dechnegol y ddogfen Canllawiau, mae'r fersiwn diwygiedig yn darparu gwell hygyrchedd a dyluniad o ran gwybodaeth drwy wella dolenni mewnol a darparu'r cyngor diweddaraf ar gymhwysedd Elfennau Dylunio. Mae'r Log Penderfyniadau Dylunio newydd yn Atodiad L yn sicrhau tryloywder o ran dewisiadau wrth ddylunio prosiect, ac mae gwelliannau i ddyletswyddau monitro yn tracio canlyniadau cydraddoldeb yn well. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i sicrhau bod dylunwyr yn fwy gwybodus ac atebol ynghylch effeithiau eu penderfyniadau ar gydraddoldeb.

Tymor hir

Mae'r canllawiau'n sail i newid hirdymor i ddulliau teithio ac integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus, gan gyfrannu at Sero Net a heneiddio'n iachach. Mae tystiolaeth iechyd yn y DU yn pwysleisio na fydd pawb yn teimlo effeithiau'r hinsawdd (gwres, llifogydd, ansawdd aer) yn gyfartal, ac mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn garbon isel, yn ogystal â strydoedd cydnerth [5][6].

Atal

Gall safonau dylunio sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol rheolaidd, sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â pherygl a llygredd ar y ffordd, ac sy'n lleihau nodweddion stryd sy'n allgáu helpu i atal salwch, anafiadau ac annhegwch. Mae'r canllawiau diweddaraf o ran gwaredu rhwystrau, palmentydd botymog, croesfannau â blaenoriaeth a thriniaeth o safleoedd bysiau yn mynd i'r afael â rhwystrau a risgiau hysbys [2][3][4].

Integreiddio

Mae Canllawiau 2026 yn integreiddio â Pholisi Cynllunio Cymru a Llwybr Newydd drwy ganolbwyntio ar ansawdd y daith gyfan a'r gyfnewidfa â thrafnidiaeth gyhoeddus, gan adlewyrchu awydd y cyhoedd am opsiynau eraill yn lle gyrru [1]. Mae'n cyd-fynd â dyletswyddau bioamrywiaeth a hinsawdd drwy atebion sy'n seiliedig ar natur (e.e. systemau draenio cynaliadwy a choed trefol) wrth ddylunio cynlluniau [6][7].

Cydweithio

Mae Canllawiau diwygiedig 2026 wedi eu llywio gan ymarferwyr awdurdodau lleol, mudiadau hygyrchedd ac anabledd y trydydd sector, a phartneriaid trafnidiaeth, gan ddefnyddio ymchwil ddiweddar yn y DU (Mynegai Sutrans; Living Streets; Cŵn Tywys/UCL; adolygiadau TfL) i driongli diogelwch, defnyddioldeb a chynhwysiant [1][2][3][4][8].

Cynnwys

Casglwyd safbwyntiau ymarferwyr a phrofiad defnyddwyr drwy ymgysylltiad cynnar, gan dargedu grwpiau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, pobl anabl, a menywod a merched ac eraill.

Roedd yr ymgysylltiad cynnar hwn yn cynnwys ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn ogystal ag adolygiadau llenyddiaeth manwl o ddogfennau a ddarparwyd gan randdeiliaid a dadansoddiad o dystiolaeth sy'n ymwneud ag allgáu strwythurol rhag cerdded, olwyno a beicio. Bydd ymgysylltiad parhaus yn ystod y cyfnod ymgynghori a gweithredu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Ganllawiau Drafft 2026 rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026. Mae Canllawiau diwygiedig 2026 wedi'u llunio yn dilyn proses ymgysylltu helaeth ar draws y wlad. Dros gyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos, roedd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar-lein agored, ymatebion e-bost, gweithdai rhanddeiliaid yn y gogledd a'r de, sesiynau arbenigol wedi'u targedu, ac ymgysylltiad penodol â Phanel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu profi yn erbyn arbenigedd proffesiynol a phrofiad uniongyrchol, yn

enwedig o safbwynt pobl anabl, menywod a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau rhag teithio.

- **172 o ymatebion i'r ymgynghoriad** (131 drwy'r platfform ar-lein, 43 dros e-bost)
- **26 o ymatebion wedi'u cyflwyno ar ran sefydliadau penodol**, ochr yn ochr ag aelodau unigol o'r cyhoedd
- **Cynhaliwyd 4 gweithdy i randdeiliaid (2 ar-lein a 2 wyneb yn wyneb – Caerdydd a Llandudno), gan ymgysylltu ag 87 o gyfranogwyr** gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau anabledd, darparwyr trafnidiaeth, sefydliadau addysg a mudiadau trydydd sector
- **Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â 10 sefydliad mewn 8 sesiwn dechnegol wedi'u targedu**, gan ganolbwyntio ar arbenigedd o ran amhariad ar y synhwyrau ac amhariadau symudedd
- **Ymgynghorwyd ag 16 aelod o Banel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC** mewn 2 sesiwn bwrpasol, yn cynrychioli pobl ag amhariad ar eu golwg, amhariadau niwrowahaniaeth ac amhariadau symudedd, yn ogystal â phobl sy'n fyddar, yn ddall ac yn drwm eu clyw
- **Roedd 135 o'r ymatebwyr o Gymru**, gyda chynrychiolaeth gytbwys rhwng y rhywiau, a nododd **34 o'r ymatebwyr eu bod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb** — gan sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth yn adlewyrchu profiad go iawn, ac nid barn broffesiynol yn unig
- Casglwyd adborth drwy **arolygon strwythuredig, ymatebion testun agored, byrddau Mural a nodiadau Post-it**. Cafodd y cyfan oll eu trawsgrifio a'u hintegreiddio i un set-ddata thematig
- Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad wedi cyfrannu'n uniongyrchol at **dros 200 o ddiwygiadau sylweddol** i'r canllawiau terfynol, gan gynnwys adnoddau newydd i gefnogi penderfyniadau, cynlluniau diwygiedig ar gyfer safleoedd bysiau, diweddaru trothwyon lled a mesurau hygyrchedd gwell, gan ddangos y berthynas glir rhwng adborth a newidiadau

Effaith - dadleuon allweddol o blaid ac yn erbyn Canllawiau diwygiedig 2026

O blaid:

Mae'r dyluniad cliriach o wybodaeth a chroesgyfeirio at ddogfennau mewnol, gan gynnwys cyfeiriadau allanol diwygiedig, yn golygu bod y ddogfen yn adlewyrchu tystiolaeth, ymchwil ac ymarfer cyfredol. Mae safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gwella diogelwch, cynhwysiant ac eglurder rhwydwaith. Mae alinio â dymuniadau'r cyhoedd yn helpu i newid dulliau teithio a chyd-fanteision hinsawdd/iechyd [1][5][38].

Mae rhai rhanddeiliaid yn mynegi pryderon y gallai rhai dyluniadau yng Nghanllawiau 2021 (e.e. ffyrdd osgoi safleoedd bysiau) leihau hygyrchedd i bobl ddall a rhannol ddall os nad oes mesurau lliniaru cryf. Mae Canllawiau 2026 yn darparu'r mesurau lliniaru hyn ac felly'n gwella ar Ganllawiau 2021. Mae Canllawiau 2026 yn rhoi mwy o bwyslais ar leihau'r rhyngweithio rhwng beicwyr a cherddwyr wrth safleoedd bysiau lle bo hynny'n ymarferol drwy gynllunio a dylunio'r rhwydwaith. Lle nad oes modd osgoi'r rhyngweithio hwn yn rhesymol, mae'r canllawiau'n cyflwyno mesurau lliniaru ychwanegol ac adnoddau i gefnogi penderfyniadau. Mae hefyd yn darparu Elfennau Dylunio diwygiedig sy'n ymgorffori mesurau lliniaru sy'n seiliedig ar dystiolaeth i faterion a godwyd gan randdeiliaid. Yn olaf, mae Canllawiau 2026 yn rhoi cyngor ar reolaethau risg sy'n ymateb i'r safle ac ymgysylltiad ar draws pob anabledd pan nad oes modd osgoi parhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau neu lwybrau cyd-ddefnyddio [2][3][8].

Yn erbyn:

Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn mai gwahardd parhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio i liniaru allgáu. Byddai hyn yn gofyn am fecanwaith arall gan y llywodraeth, gan fod y Canllawiau ar y cyfan yn ganllawiau anstatudol. Byddai hyn hefyd yn gwyro oddi wrth normau o ran gweithrediadau, cynnal a chadw a dylunio strydoedd, gan y byddai'n arwain at ganoli atebolrwydd gwneud penderfyniadau i Lywodraeth Cymru, ac i ffwrdd oddi wrth swyddogion ac aelodau Awdurdodau Lleol [15].

Mae nifer o ffrydiau gwaith ychwanegol wedi cael eu nodi i roi mesurau lliniaru ar waith. Bydd bylchau mewn tystiolaeth yn cael sylw drwy fonitro strwythuredig ar ôl gweithredu ac ymgysylltu parhaus â grwpiau anabledd.

Costau, arbedion a chymesuredd

Nid yw'r canllawiau eu hunain yn mandadu gwariant; yn hytrach, mae'r canllawiau'n gwella cysondeb a gwerth am arian cynlluniau lleol drwy leihau dylunio ofer, egluro penderfyniadau dylunio, a thargedu manteision i grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Bydd arfarniadau economaidd o gynlluniau penodol yn dilyn egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF ac arfarniad WelTAG lle bo hynny'n gymesur. Dylid dilyn WelTAG bob amser a'i uwchraddio/israddio fel y bo'n briodol.

Mecanwaith

Bydd Canllawiau 2026 yn darparu canllawiau technegol statudol i gefnogi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Nid oes unrhyw droseddau newydd yn cael eu creu.

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?

2.1 Pobl a chymunedau

Rhagwelir effeithiau cadarnhaol sylweddol ar bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i deithio llesol ar hyn o bryd: pobl anabl; menywod a merched; plant a phobl ifanc; pobl hŷn; ac aelwydydd incwm isel. Mae 'Mynegai Cerdded a Beicio' Sustrans yn adrodd ar bryderon

diogelwch parhaus a bylchau rhwng y rhywiau o ran beicio; mae'r eglurder diweddaraf ynghylch croesfannau, blaenoriaeth ar ffyrdd ymyl a llwybrau cyd-ddefnyddio yn targedu'r rhwystrau hyn [1].

2.2 Hawliau Plant (canlyniad sgrinio: Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A)

Mae'r canllawiau'n cefnogi hawl plant i chwarae ac i symud yn ddiogel ac yn annibynnol drwy strydoedd sydd wedi'u cysylltu'n well, sydd â mesurau gostegu traffig ar waith ac sy'n fwy hygyrch. Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (Chwefror 2025) yn nodi'r cynnydd a'r camau nesaf i wreiddio digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae Canllawiau 2026 yn cyfrannu at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae drwy nodi rhwydweithiau sy'n addas i blant ac y gellir cerdded, olwyno neu feicio arnynt, croesfannau ffyrdd mwy diogel a mannau i orffwys [9].

2.3 Cydraddoldeb (Asesiad gorfodol o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B)

Gan gydnabod cynulleidfa dechnegol y ddogfen Canllawiau 2026, mae'r fersiwn diwygiedig yn darparu gwell hygyrchedd a dyluniad o ran gwybodaeth drwy wella dolenni mewnol a darparu gwell cyngor ar gymhwysedd yr Elfennau Dylunio. Mae'r Log Penderfyniadau Dylunio newydd yn Atodiad L yn sicrhau tryloywder o ran dewisiadau wrth ddylunio prosiect, ac mae gwelliannau i ddyletswyddau monitro yn tracio tegwch canlyniadau. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i sicrhau bod dylunwyr yn fwy gwybodus ac yn fwy atebol ynghylch effeithiau eu penderfyniadau ar gydraddoldeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal amrywiol fecanweithiau parhaus, megis y Bwrdd Teithio Llesol Cynhwysol, a Phanel Hygyrchedd a Chynhwysiant Trafnidiaeth Cymru, sy'n gwahodd ac yn annog pobl anabl, ac eraill y mae'r canllawiau hyn yn effeithio arnynt, i allu mynegi eu barn. Mae hyn yn cynnwys nodi ac adrodd ar ble mae'n cael effeithiau cadarnhaol neu niweidiol arnynt; ac yn achos cyrff anllywodraethol, eu haelodau neu eu rhanddeiliaid.

Gan ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, yn enwedig gan grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, mae'r diweddariad hwn yn pwysleisio'r angen i wahanu pobl sy'n cerdded oddi wrth bobl sy'n beicio, ac i leihau'r cynnydd o lwybrau cyd-ddefnyddio fel dewis cyntaf gan ddylunwyr. Mae Canllawiau 2026 yn cynnwys adnodd ar gyfer Dewis Dyluniad Cysylltiadau y Map Rhwydwaith Teithio Llesol; mae hwn yn adnodd ar ffurf siart llif i helpu arwain dylunwyr i ffwrdd o ddefnyddio llwybrau cyd-ddefnyddio mewn lleoliadau amhriodol.

Mae Canllawiau 2026 yn cryfhau canlyniadau dylunio sy'n gynhwysol o ran rhywedd. Mae'r diweddariadau dylunio allweddol yn cynnwys pwysleisio pwysigrwydd diogelwch goddrychol ar gyfleusterau teithio llesol, fel llwybrau beiciau wedi'u diogelu, troedffyrdd lletach, a mesurau gwahanu ffisegol parhaus oddi wrth draffig prysur er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Mae goleuadau, llinellau gweld clir, a gwyliadwriaeth naturiol yn cael eu blaenoriaethu i wella diogelwch personol gwirioneddol a thybiedig. Mae'n atgyfnerthu'r angen am ymgysylltiad cynhwysol, sy'n gofyn am

ymgynghori wedi'i dargedu â menywod a merched, wedi'i gefnogi gan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob cam.

Mae egwyddorion creu lleoedd bellach i'w gweld yng Nghanllawiau 2026, gyda chanllawiau ar seddi rheolaidd, toiledau hygyrch, a nodweddion sy'n addas i'r henoed ac i deuluoedd er mwyn cefnogi teithiau cadwyn a gofal o ran symudedd. Rhaid i gyffyrdd a chroesfannau roi blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, olwyno a beicio, gyda chynlluniau mwy diogel a llwybrau parhaus. Mae integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus, mannau diogel i barcio beiciau, a mannau i wefru e-feiciau yn cael ei atgyfnerthu. Nod y mesurau hyn yw gwneud rhwydweithiau teithio llesol yn fwy diogel, yn fwy cynhwysol ac yn ddeniadol i fenywod a merched, gan annog mwy o bobl i fanteisio arnynt a lleihau rhwystrau.

Mae tystiolaeth o ymchwil anabledd a hygyrchedd yn dangos, heb reolaethau penodol, y gall rhai nodweddion rhwydwaith teithio llesol (e.e. ffyrdd osgoi safleoedd bysiau, esgynloriau safleoedd bysiau a mynedfeydd i ffyrdd ymyl) greu rhwystrau i bobl ddall a phobl sydd ag amhariad ar eu golwg ac eraill. Mae Canllawiau 2026 yn egluro amcanion dylunio sy'n seiliedig ar risg, amlinelliad canfyddadwy, rheolaeth croesi, a lle ar gyfer beiciau wedi'u haddasu i hyrwyddo cyfle cyfartal a lleihau allgáu. Rhoddwyd ystyriaeth i dynnu'r nodweddion problemus hyn o'r Canllawiau Dylunio. Mae effeithiau negyddol y nodweddion hyn wedi cael eu lliniaru yn y canllawiau hyn cyn belled ag y bo modd, gan ddarparu ar gyfer y nod strategol o gynyddu pa mor gyffredin yw beicio.

Ar sail adborth a gweithdai a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar Ganllawiau 2026, gwnaed nifer o ddiwygiadau i Gyfres 500 o'r Elfennau Dylunio yn Atodiad G. Mae'r diwygiadau hyn yn gwella hygyrchedd ac yn eu gwneud yn fwy cyson â chanllawiau ehangach yn y DU, gan gynnwys ychwanegu Elfennau Dylunio newydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu adnodd gwneud penderfyniadau ar ffurf siart llif i gefnogi'r gwaith o asesu parhad llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau. Mae ffrydiau gwaith lliniaru ychwanegol, nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith y canllawiau hyn (e.e. gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu o ran troseddau traffig symudol), hefyd wedi cael eu nodi er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu adnoddau, cyflawni, monitro a gwerthuso.

2.4 Prawfesur gwledig (Atodiad C)

Mae'r diweddariad yn egluro sut i roi'r Canllawiau ar waith mewn cyd-destunau gwledig neu lif isel (lonydd tawel, aneddiadau, trefi marchnad), gan ystyried dwysedd is, teithiau hirach a gwahaniaethau ym mhroffil y galw. Mae'n hyrwyddo dyluniad cymesur sy'n cynnal mynediad ar gyfer cerbydau hanfodol ar yr un pryd â diogelu defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed.

Ar sail adborth o'r ymgynghoriad, addaswyd nifer o dablau ar gyfer llwybrau beiciau a llwybrau cyd-ddefnyddio i adlewyrchu dwysedd poblogaeth wledig Cymru a niferoedd defnyddwyr teithio llesol yn well.

2.5 Iechyd (sgrinio: gweler Atodiad G)

Drwy alluogi gweithgarwch corfforol rheolaidd a lleihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â risg o wrthdrawiad a llygredd aer/sŵn, disgwylir i'r Canllawiau gyfrannu at ganlyniadau iechyd gwell.

Mae adroddiad 2023 Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd yn tynnu sylw at risgiau anghyfartal o ran iechyd a'r hinsawdd. Mae'r adroddiad hwnnw'n nodi: *Bydd risgiau i iechyd oherwydd yr hinsawdd yn mapio ar raddiannau presennol mewn iechyd ac anghydraddoldeb. Bydd y rhai hynny sy'n llai abl i reoli eu hamgylchedd, addasu eu hymddygiad, neu ymateb i risgiau newydd yn arbennig o agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys plant, pobl ag anableddau, pobl sy'n ddigartref, a phobl mewn lleoliadau megis carchardai, ysgolion a gofal cymdeithasol.* Gellir lleihau'r perygl o wres a llifogydd drwy gefnogi creu strydoedd gwyrddach y gellir eu cerdded gyda chysgod/ seilwaith glas a gwyrdd [5][6][55].

2.6 Preifatrwydd

Nid yw'r canllawiau'n cyflwyno prosesu unrhyw data personol. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer testun y Canllawiau.

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a'r iaith Gymraeg?

Mae gwell strydoedd a thir cyhoeddus yn cefnogi cyfranogiad yn y celfyddydau, mewn diwylliant, mewn chwaraeon ac ym mywyd cymdeithasol bob dydd. Mae'r canllawiau'n ymrwymo i gyhoeddiadau, arwyddion ac ymgysylltu dwyieithog sy'n cyd-fynd â Chymraeg 2050, gan alluogi defnydd mwy achlysurol o'r Gymraeg mewn teithiau dyddiol.

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?

Gall teithio llesol leihau costau trafnidiaeth aelwydydd a chefnogi economïau lleol drwy wella mynediad at ganol trefi a'r stryd fawr. Mae pobl sy'n cerdded i'r stryd fawr yn gwneud mwy o ymweliadau ac yn gwario mwy o arian fesul ymweliad na grwpiau eraill, gan gefnogi busnesau lleol. [48] Mae data agwedd y cyhoedd yn dangos bod llawer o breswylwyr yn teimlo eu bod "wedi'u cloi i mewn" i ddefnyddio ceir oherwydd diffyg dewisiadau eraill, sy'n awgrymu bod galw cuddiedig am ddewisiadau ymarferol [1] [38]. Mae'r effaith budd net ar yr economi o fuddsoddi mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd, megis lleihau allyriadau carbon deuocsid o drafnidiaeth, wedi bod yn hysbys ers degawdau [56]. Mae'r effeithiau economaidd negyddol eisoes i'w gweld ar lefelau lleol a chenedlaethol, a gellir eu lleihau gan yr ymyriadau ar lefel stryd i wrthsefyll yr hinsawdd a ddisgrifir yng Nghanllawiau 2026, megis darparu canopi coed trefol a systemau draenio cynaliadwy [55]. Mae Canllawiau 2026 yn lleihau risg ac ansicrwydd dylunio i bartneriaid cyflawni, gan wella ansawdd cynlluniau a lleihau gwariant ofer.

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?

Mae'r diweddariad yn cefnogi atebion sy'n seiliedig ar natur (system draenio gynaliadwy, gorchudd canopi) a lleihau allyriadau drwy newid dulliau teithio, gan leihau effeithiau negyddol gwresogi byd-eang anthropogenig cyflym.

Mae Canllawiau 2026 yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau Cymru o ran llifogydd a'r arfordir i wella'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Disgwylir gostyngiadau o ran dod i gysylltiad â llygredd aer a sŵn a chyd-fanteision ecolegol hefyd, ochr yn ochr â chanlyniadau trafnidiaeth [6][7].

Mae Teithio Llesol yn ei hanfod yn ddull teithio sy'n fwy effeithlon o ran gofod na'r rhan fwyaf o ddewisiadau eraill. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan grwpiau pobl anabl a rhanddeiliaid eraill ynghylch y defnydd cynyddol o lwybrau cyd-ddefnyddio, mae'r canllawiau diweddaraf yn rhoi mwy o bwyslais ar wahanu pobl sy'n cerdded rhag pobl sy'n beicio, gan geisio gwella ansawdd, cyfforddusrwydd a chynhwysiant cyffredinol llwybrau teithio llesol. Gallai hyn effeithio ar ofynion o ran arwynebedd tir, ond mae'n cael ei liniaru gan ba mor effeithlon o ran lle yw teithio llesol. Mae Canllawiau 2026 hefyd yn annog dylunwyr ac Awdurdodau Lleol i leihau ardaloedd palmantog a ddefnyddir ar gyfer parcio neu draffig cerbydau, a thrwy integreiddio manteision bioamrywiaeth a systemau draenio cynaliadwy.

Adran 6. Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol – yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae tlodi trafnidiaeth a'r gost o fod yn ddibynnol ar geir yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd incwm isel. Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos amrywiad mewn bod â mynediad at geir yn ôl amddifadedd a math o aelwyd; mae'r Health Foundation yn tynnu sylw at fylchau sy'n gysylltiedig ag incwm mewn mynediad at geir [10][11]. Mae Canllawiau 2026 yn helpu i leihau anghydraddoldeb drwy gefnogi pobl yng Nghymru i wneud teithiau byr yn fwy diogel drwy gerdded, olwyno a beicio a thrwy integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Adran 7. Cofnod o'r Asesiadau Effaith Gofynnol Llawn

Asesiad Effaith	**Oes/Na/Sgrinio**	**Os 'oes' dylech wneud y canlynol**
Hawliau Plant	Oes	Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A).
Cydraddoldeb	Oes*	Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol	Oes	Cwblhau'r asesiad (Atodiad F).
Prawfesur Gwledig	Oes	Cwblhau Prawfesur Gwledig (Atodiad C).
Iechyd	Oes	Sgrinio ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd cyfrannol (Atodiad G).
Preifatrwydd	Na	Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer testun canllawiau.
Y Gymraeg	Oes	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (wedi'i wreiddio yn Atodiad D).
Asesiad Effaith Rheoleiddiol / Economaidd	Oes	Fframio dosbarthiadol ansoddol. Arfarniad ar lefel y cynllun yn ôl yr angen.
Cyfiawnder	Na	Cymerwyd cyngor cyfreithiol nad oedd angen Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder.
Bioamrywiaeth	Oes*	Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth (Atodiad E).
Newid yn yr Hinsawdd	Oes	Sgrinio carbon/y gallu i wrthsefyll fel sy'n gymesur.
Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Sgrinio	Defnyddio lle mae cynlluniau/rhaglenni/prosiectau yn sbarduno trothwyon.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Cynnwys

Ymgysylltiad cynnar oedd cam cyntaf y prosiect Canllawiau 2026 ar ôl ei gynllunio. Casglwyd safbwyntiau ymarferwyr a phrofiad defnyddwyr drwy ymgysylltiad cynnar, gan dargedu grwpiau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, pobl anabl, a menywod a merched ac eraill.

Roedd yr ymgysylltiad cynnar hwn yn cynnwys ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn ogystal ag adolygiadau llenyddiaeth manwl o ddogfennau a ddarparwyd gan randdeiliaid a dadansoddiad o dystiolaeth sy'n ymwneud ag allgáu strwythurol rhag cerdded, olwyno a beicio.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Ganllawiau drafft 2026 rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026. Mae'r Canllawiau diwygiedig 2026 a gyhoeddwyd wedi'u siapio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, adborth i'r ymgynghoriad a thrafodaethau cydweithredol, gan sicrhau bod y ddogfen derfynol yn adlewyrchu adborth a phrofiad ymarferol.

Dros gyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos, roedd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar-lein agored, ymatebion e-bost, gweithdai rhanddeiliaid, sesiynau arbenigol wedi'u targedu, a chyfarfodydd penodol â Phanel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu profi yn erbyn arbenigedd proffesiynol a phrofiad uniongyrchol — yn enwedig o safbwynt pobl anabl, menywod a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau rhag teithio.

- **172 o ymatebion i'r ymgynghoriad** (131 drwy'r platfform ar-lein, 43 dros e-bost)
- **26 o ymatebion wedi'u cyflwyno ar ran sefydliadau penodol**, ochr yn ochr ag aelodau unigol o'r cyhoedd
- **Cynhaliwyd 4 gweithdy i randdeiliaid (2 ar-lein a 2 wyneb yn wyneb – Caerdydd a Llandudno), gan ymgysylltu ag 87 o gyfranogwyr** gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau anabledd, darparwyr trafnidiaeth, ymgynghorwyr trafnidiaeth, sefydliadau addysg a mudiadau trydydd sector
- **Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â 10 sefydliad mewn 8 sesiwn dechnegol wedi'u targedu**, gan ganolbwyntio ar arbenigedd o ran amhariad ar y synhwyrau ac amhariadau symudedd
- **Ymgynghorwyd ag 16 aelod o Banel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC** mewn 2 sesiwn bwrpasol, yn cynrychioli pobl ag amhariad ar eu golwg, amhariadau niwrowahaniaeth ac amhariadau symudedd, yn ogystal â phobl sy'n fyddar, yn ddall ac yn drwm eu clyw

- **Roedd 135 o'r ymatebwyr o Gymru**, gyda chynrychiolaeth gytbwys rhwng y rhywiau, a nododd **34 o'r ymatebwyr eu bod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb** — gan sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth yn adlewyrchu profiad go iawn, ac nid barn broffesiynol yn unig

- Casglwyd adborth drwy **arolygon strwythuredig, ymatebion testun agored, byrddau Mural a nodiadau Post-it**. Cafodd y cyfan oll eu trawsgrifio a'u hintegreiddio i un set-ddata thematig

- Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad wedi cyfrannu'n uniongyrchol at **dros 200 o ddiwygiadau sylweddol** i'r canllawiau terfynol, gan gynnwys adnoddau newydd i gefnogi penderfyniadau, cynlluniau diwygiedig ar gyfer safleoedd bysiau, diweddaru trothwyon lled a mesurau hygyrchedd gwell. Mae hyn yn dangos y berthynas glir rhwng adborth a newidiadau, yn hytrach na dim ond ymdrech symbolaidd

Mae adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad hwn ar gael gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gyhoeddiad Canllawiau 2026.

8.2 Yr effeithiau mwyaf arwyddocaol

Effeithiau cadarnhaol Canllawiau 2026

Rhwydweithiau cerdded, olwyno a beicio mwy diogel, mwy cynhwysol, uniongyrchol parhaus a chyfforddus. [1][2][3][4][38]

Safonau cliriach ar gyfer croesfannau cerbytffordd, cynlluniau safleoedd bysiau a chael gwared ar rwystrau i helpu defnyddwyr anabl yn ogystal â phobl sydd â phlant. Gwella hyder defnyddwyr a diogelwch tybiedig. Strydoedd mwy gwyrdd gyda manteision addasu i'r hinsawdd [5][6][8].

Dehongli lleol mwy cyson gan ddylunwyr, ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Amcanion dylunio cynhwysol penodol, amlinelliad canfyddadwy a rheolaeth croesi. Logiau penderfyniadau dylunio yn gwella atebolrwydd y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae monitro a gwerthuso yn cyfeirio'n benodol at yr angen i ystyried effeithiau gwahaniaethol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys defnyddwyr anabl [2][3][8].

Effeithiau negyddol Canllawiau 2026

Er y bydd mesurau lliniaru'n cael eu profi yn ystod yr ymgynghoriad, mae pryder parhaus i bobl anabl, yn enwedig pobl sydd ag amhariad ar eu golwg, oherwydd cynnydd mewn pa mor gyffredin yw beicio, gan gynnwys gosod croesfannau llwybrau beiciau newydd a pharhad llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau. [2] [3] [4]

8.3 Sicrhau'r manteision gorau posibl a lliniaru niwed

Yn fwyaf sylfaenol, mae Canllawiau 2026 yn cefnogi disodli teithiau a wneir gan gerbydau sy'n achosi niwed cymdeithasol sylweddol (cerbydau modur) â dulliau trafnidiaeth sy'n

achosi llai o niwed (cerdded, olwyno a beicio, wedi'u hintegreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus). [29][30][42]

Yng ngoleuni'r newidiadau sy'n cael eu gwneud yng Nghanllawiau 2026, mae'r dulliau canlynol wedi cael eu cynnig i gynyddu'r manteision a lliniaru'r niwed sy'n cael ei achosi drwy gael mwy o gerdded, olwyno a beicio.

Dyma'r camau gweithredu hyn;

- Cydweithio â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru o ran meysydd polisi cysylltiedig cyfagos a'u prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth, a rhoi mwy o lais iddynt, er mwyn helpu i weithio tuag at nodau cyffredin, gan gynnwys;
    - Ffrwd waith 'Rhoi terfyn ar aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus' y tîm Trais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
    - Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl a thîm polisi Pobl Anabl
    - Datgarboneiddio a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd
    - Risg llifogydd a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd
    - Cydraddoldeb a hawliau dynol
    - Tai a datblygu
    - Priffyrdd a diogelwch ar y ffyrdd
    - Cludiant i ddysgwyr
    - Iechyd a lles
    - Gwasanaethau brys
    - Adfywio
    - Economeg
    - Trenau
    - Bysiau

- Parhau i gydweithio â grwpiau anabl, sefydliadau academaidd, rhanddeiliaid a hefyd partneriaid ledled y DU megis Active Travel England i gynnal ymchwil, datblygu tystiolaeth a datblygu gwybodaeth sy'n llywio 'Pontio Teg' i deithio llesol, ac ymrwymo i ddefnyddio'r dystiolaeth honno'n gyflym i ddatblygu polisi. Mae'r ffrydiau gwaith gweithredol yn cynnwys;
    - Llwyddodd TrC i wneud cais i Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gynnal Adolygiad Cyflym annibynnol o Dystiolaeth. Mae hwn yn edrych yn systematig ac yn gyfannol ar dystiolaeth o'r rhwystrau a'r hwyluswyr i bobl anabl mewn ymateb i newidiadau yn seilwaith Teithio Llesol, a'r effaith ar eu hygyrchedd. Disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2025.
    - Mae Canolfan Dylunio Trafnidiaeth Cymru yn arsylwr rheolaidd ym Mhanel Hygyrchedd a Chynhwysiant TrC, ac mae'n gweithio'n agos i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflawni Teithio i Bawb, gan roi'r arferion gorau ar

waith wrth gymryd rhan ar draws cynnig trafnidiaeth integredig TrC. Mae'r Ganolfan hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o roi dull gweithredu 'Teithio i Bawb' Llywodraeth Cymru ar waith. Bydd hyn yn arwain at gryfhau mecanweithiau cynnwys a llywodraethu o ran strategaethau, polisïau a chyflawni trafnidiaeth.

Mewn perthynas â'r niwed o ran gwaharddiadau a nodwyd gan bobl anabl [3] a achosir gan y cynnydd mewn seilwaith cerdded a beicio, yn benodol parhad cyfleusterau beicio wrth safleoedd bysiau a llwybrau cyd-ddefnyddio, ac ymhellach i'r mesurau lliniaru a ddarparwyd eisoes yng Nghanllawiau 2026, mae'r mesurau lliniaru canlynol wedi cael eu nodi ym mhroses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;

- Ymchwilio a datblygu technolegau a thechnegau newydd i liniaru risgiau i ddefnyddwyr mewn senarios prysur neu gymhleth o barhad llwybr beiciau wrth safleoedd bysiau. Dylai hyn gynnwys treialon yn y fan a'r lle mewn senarios yn y byd go iawn gyda phobl anabl ac sy'n casglu tystiolaeth o ansawdd uchel drwy raglenni monitro a gwerthuso sydd â digon o adnoddau.
- Cyhoeddiadau sain a gwelliannau eraill i weithrediadau a thechnoleg bysiau, sy'n rhybuddio teithwyr sy'n dod oddi ar y bws wrth safleoedd bysiau sydd â llwybrau beiciau, yn unol â gweithgareddau'r rhaglen Diwygio Bysiau.
- Ymgyrch gorfodi gan yr heddlu yn defnyddio troseddau traffig symudol sy'n bodoli eisoes ar gyfer pobl sy'n reidio beiciau mewn ffyrdd sy'n effeithio ar bobl anabl.
- Ymgyrch hysbysebu a chymdeithasol sydd wedi'i dargedu ar lefel ficro i dargedu pobl sy'n beicio ar hyn o bryd, gan adrodd stori rymus am yr effaith y mae beicio anystyriol yn ei chael ar bobl anabl.

8.4 Monitro a gwerthuso

Fel canllawiau dylunio ar gyfer prosiectau adeiladu, bydd yn cymryd peth amser i Ganllawiau 2026 arwain at newidiadau ar lawr gwlad i'r gwaith o ddarparu seilwaith. Gan ddefnyddio mecanweithiau perthnasol, o ran adrodd blynyddol, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso effaith Canllawiau 2026 ar gyflawni'r nod hirdymor o gynyddu'r defnydd, a chyfran y defnydd, o gerdded, olwyno a beicio gan ddefnyddio Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Bydd hefyd yn tracio'r defnydd o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i gyflawni cynlluniau teithio llesol drwy'r cynlluniau cyflawni trafnidiaeth rhanbarthol ar ran y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a Gweinidogion Cymru.

Mae adborth gan ymarferwyr ynghylch Canllawiau 2026 yn rhan hanfodol o welliant parhaus. Ar ôl rhoi Canllawiau 2026 ar waith, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gofnodi ac archifo sylwadau ac ymholiadau a dderbynnir yn eu cylch ym mlwch derbyn Design.Office@tfw.Wales ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae cymorth ar gyfer Monitro a Gwerthuso ar gael i ymarferwyr drwy atmonitoring.tfw.wales. Gall Trafnidiaeth Cymru ddarparu cyngor a chymorth i ymarferwyr ddatblygu a darparu dulliau Monitro a Gwerthuso cymesur.

Adran 9. Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Alex Walters

Adran: Trafnidiaeth Leol Integredig

Dyddiad: 13/10/2026

Atodiad A. Asesiad or Effaith ar Hawliau Plant

Amcanion polisi sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Mae Canllawiau 2026 yn hyrwyddo strydoedd diogel a hygyrch sy'n cefnogi symudedd annibynnol, mynediad at addysg a chwarae. Mae'n cyfrannu tuag at Erthygl 31 (hawl i chwarae), Erthygl 12 (cyfranogiad), Erthygl 6 (bywyd, goroesi a datblygu), Erthygl 24 (iechyd), Erthygl 28 (addysg) ac Erthygl 3 (buddiannau gorau).

I gael dadansoddiad manwl o'r effeithiau ar blant, cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â nodwedd warchodedig Oedran mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn Atodiad B.

Tystiolaeth ac ymgysylltiad

Rhyngwladol/Cenedlaethol: Ymchwil Symudedd Annibynnol Plant; Adroddiad Cynnydd ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2025) yn nodi camau gweithredu i wreiddio digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Data o wahanol ffynonellau sy'n dangos y galw am ddewisiadau teithio llesol diogel [1][9][38].

Erthygl CCUHP	Eglurhad
Erthygl 31 – Chwarae a Hamdden	Mae nodweddion ansawdd rhwydwaith, croesfannau diogel a "chwarae ar y ffordd" yn galluogi chwarae a chyswllt cymdeithasol bob dydd [9].
Erthygl 12 – Cyfranogiad	Ymrwymiad i gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o gynllunio, ymgysylltu a gwerthuso'r prosiect. [19] [28]
Erthygl 24 – Iechyd	Cefnogi gweithgarwch corfforol arferol; lleihau'r risg o niwed ar y ffyrdd; lleihau dod i gysylltiad â llygredd drwy newid dulliau teithio [5] [12] [13] [16]
Erthygl 28 – Addysg	Mae llwybrau mwy diogel yn gwella mynediad annibynnol i ysgolion a cholegau, a chyrhaeddiad addysgol. [16] [17]
Erthygl 3 – Buddiannau gorau	Mae amcanion dylunio yn blaenoriaethu diogelwch a hygyrchedd i blant a theuluoedd. [19] [28]

Asesiadau a lliniariadau

Disgwylir effeithiau cadarnhaol o Ganllawiau 2026 ar blant ym meysydd cyfranogiad, chwarae, symudedd, diogelwch, cyrhaeddiad addysgol ac iechyd. [2][3][8]. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant wedi eu nodi.

Atodiad B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Crynodeb

Roedd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu effaith y canllawiau technegol diweddaraf yng Nghanllawiau 2026 ar gerdded, olwyno a beicio i wella hygyrchedd a chynhwysiant buddsoddiadau mewn teithio llesol, gan gefnogi manteision hirdymor ar raddfa'r boblogaeth ar draws y nodweddion gwarchodedig i gyd.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn asesu effaith y diweddariadau rhwng y Canllawiau arfaethedig ar gyfer 2026 a'r Canllawiau presennol ar gyfer 2021. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ailasesu effaith bwriad strategol Llwybr Newydd (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021) i gynyddu pa mor gyffredin yw teithio llesol, gan fod y penderfyniad hwnnw eisoes wedi cael ei wneud. Fodd bynnag, mae'n cynnig cyfle i adlewyrchu sut gall gwell canllawiau dylunio strydoedd liniaru unrhyw niwed i bobl â nodweddion gwarchodedig ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwelliannau.

Mae Canllawiau 2026 yn cynnig llai o effaith ar bobl anabl a gwell hygyrchedd a chynhwysiant o'i gymharu â chadw Canllawiau 2021 fel y canllawiau presennol.

Mae angen gwneud rhai penderfyniadau anodd, gan gydbwyso effeithiau negyddol amgylcheddau stryd newydd a gwahanol ar rai grwpiau â'r potensial ar gyfer manteision hirdymor i'r boblogaeth. Er enghraifft, mae defnyddwyr sydd ag amhariad ar eu golwg yn dweud eu bod yn fwy pryderus oherwydd y cynnydd mewn pa mor gyffredin yw llwybrau beiciau wrth safleoedd bysiau. Ar ôl pwyso a mesur y dystiolaeth hon, ac wrth ystyried y canlyniadau tymor hwy ar iechyd, symudedd, lle a chynaliadwyedd, mae manteision y newidiadau a gynigir yng Nghanllawiau 2026 ar raddfa'r boblogaeth yn gorbwyso'r niwed. Yn ogystal â chamau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol gweddilliol yn sgil Canllawiau 2026, mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnig ymchwil a chydweithio parhaus ochr yn ochr â chynllun monitro a gwerthuso parhaus.

- cyfeiriadau newydd at adnoddau ac egwyddorion dylunio sy'n sensitif i rywedd megis archwiliadau diogelwch TfL i fenywod, Make Space for Girls a'r llawlyfr Creating Places that Work for Women and Girls.
- dulliau creu lleoedd sy'n ystyried diogelwch, cysur a gweledded i fenywod a merched mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys goleuadau, toiledau a chyfleuster newid babanod, seddi gan gynnwys seddi cadair wthio, a gwyliadwriaeth.
- safonau dylunio gyda gwell gwahanu a blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio (Penodau 11 a 12, ac Atodiad G) yn blaenoriaethu parhad cyfleusterau cerdded a beicio diogel ar wahân, gan ymateb i bryderon am famau â babanod [1] a'u bod yn fwy agored i niwed wrth gerdded neu feicio [38] [27]
- erbyn hyn, mae fframweithiau monitro yn gofyn am adrodd ar sut mae cynlluniau'n mynd i'r afael â rhwystrau i fenywod a merched, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth.
- yn alinio â Siarter Creu Lleoedd Cymru a strategaethau Seilwaith Gwyrdd sy'n cael eu datblygu, sy'n cefnogi mannau diogel a chynhwysol i fenywod a theuluoedd

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(negyddol) rhai mannau cyhoeddus a llwybrau teithio llesol yn dal i gael eu hosgoi, yn enwedig gyda'r nos

(cadarnhaol) gwell profiadau cerdded, olwyno a beicio i fenywod a merched

(cadarnhaol) canlyniadau iechyd a llesiant gwell i fenywod a merched sy'n gallu cymryd rhan mewn teithio llesol

(cadarnhaol) gwelliannau cynyddrannol bach i ddiogelwch personol a gostyngiadau mewn canlyniadau aflonyddu ar y stryd ar sail rhywedd i fenywod a merched

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

- patrymau symudedd/amseru ar sail rhyw a phryderon ynghylch diogelwch [50]
- cefnogaeth i rwydweithiau parhaus, mwy diogel sydd wedi'u goleuo'n well. [1][27][38]

Mesurau lliniaru i effeithiau negyddol o fewn Canllawiau 2026

- darparu goleuadau a gwyliadwriaeth oddefol [1] [38]
- sicrhau llwybrau parhaus, uniongyrchol at wasanaethau allweddol gyda mannau diogel i barcio beiciau er mwyn galluogi symudiadau teithiau cadwyn [50]
- dylunio cyfnewidfeydd sy'n lleihau arwahanrwydd [1] [50]
- ystyried symudiad bygis/beiciau cargo. [1][8]

Ailbennu rhywedd

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Tua 10,000 yn seiliedig ar gyfrifiad 2021 [47]

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- dulliau creu lleoedd sy'n ystyried diogelwch, cyfforddusrwydd a gweledeedd mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys goleuadau a gwyliadwriaeth.
- safonau dylunio gyda gwell gwahanu a blaenoriaeth i bobl sy'n cerdded, yn olwyno neu'n beicio (Penodau 11 a 12, ac Atodiad G) yn blaenoriaethu parhad cyfleusterau cerdded a beicio diogel ar wahân, gan ymateb i bryderon am famau â babanod [1] a'u bod yn fwy agored i niwed wrth gerdded neu feicio [27] [39]
- yn alinio â Siarter Creu Lleoedd Cymru a strategaethau Seilwaith Gwyrdd sy'n cael eu datblygu, sy'n cefnogi mannau diogel a chynhwysol i fenywod a theuluoedd

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) Ymgynghori cynhwysol

(cadarnhaol) Mae mannau cyhoeddus mwy diogel sydd o fewn golwg da yn lleihau allgáu

Rhesymeg a thystiolaeth ategol


Canfyddiadau diogelwch a chefnogaeth i strydoedd mwy croesawgar. [1] [38]

Hil/ethnigrwydd

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Mae gan bawb yng Nghymru hil, ac mae hon yn nodwedd warchodedig sy'n cael ei rhannu.

Yng nghyfrifiad 2021, nododd 90.6% o bobl Cymru eu bod yn "Wyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig". [52] O'r ganran a oedd yn weddill, mae dadansoddiad o hyn ar draws y boblogaeth wedi'i gynnwys isod.



Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- blaenoriaethu diogelwch, goleuadau a gwyliadwriaeth oddefol ar lwybrau teithio llesol [1] [38]
- integreiddio cyfleusterau cerdded, olwyno a beicio yn well gyda safleoedd bysiau
- cynnwys grwpiau cymunedol yn y broses o ddewis a dylunio llwybrau. [1]

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) Gwell mynediad at wasanaethau, gan gynnwys safleoedd bysiau, drwy gerdded, olwyno a beicio.

Rhesymeg a thystiolaeth ategol


- canfyddiadau ynghylch teimlo'n ddiogel/fel petaech chi'n cael croeso [1] [38]
- 23% o bobl o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 12% o bobl o gefndir Gwyn. [51]
- dadansoddiad yr Health Foundation o fylchau o ran mynediad at geir yn ôl incwm (yn aml gysylltiedig ethnigrwydd). [1][11]

Crefydd neu gred

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Yn 2021, roedd nifer y bobl yng Nghymru a nododd "Dim crefydd" yn fwy na'r rhai a nododd unrhyw gysylltiad crefyddol unigol, gyda 47% o'r boblogaeth (1.4 miliwn) yn nodi "Dim crefydd".

Mae'r graff isod yn dangos dadansoddiad yn ôl canran o'r crefyddau yng Nghymru [52]



Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

≈ Niwtral yn gyffredinol (dim rhwystrau penodol y tu hwnt i anghenion o ran tir y cyhoedd)

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

≈ Niwtral yn gyffredinol (dim rhwystrau penodol y tu hwnt i anghenion o ran tir y cyhoedd)

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

Dim rhwystrau penodol y tu hwnt i anghenion o ran tir y cyhoedd.

Cyfeiriadedd rhywiol

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Ffigurau allweddol ar gyfer Cymru (Cyfrifiad 2021):

- Cyfanswm yr ymatebwyr (16+): 2.4 miliwn (92.4% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn)
- Strêt/Heterorywiol: 89.4%
- Hoyw neu Lesbiaidd: 1.5%
- Deurywiol: 1.2%
- Cyfeiriadedd rhywiol arall: 0.3%
- Heb ateb: 7.6%
- Cyfanswm LHDTC+: 3.0%

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- cyflwyno Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru fel strategaeth ategol, sy'n pwysleisio'r angen am fannau diogel, croesawgar a chynhwysol.
- mae cyfeiriadedd rhywiol ac LHDTC+ yn cael eu cydnabod fel ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar y ffordd y mae unigolyn yn profi sefyllfa, yn enwedig o ran diogelwch ac mae'n nodi ffactorau sy'n gallu cael effaith (megis goleuadau, arwahanrwydd, gwyliadwriaeth oddefol). [1]
- mae'r canllawiau'n atgyfnerthu'r ddyletswydd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i ystyried anghenion pobl LHDTC+ wrth gynllunio, dylunio, ymgysylltu a hyrwyddo cynlluniau a'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Mae'n annog awdurdodau lleol i ymgysylltu'n weithredol ac yn ystyrlon â chymunedau LHDTC+ a sefydliadau sy'n eu cynrychioli.
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb asesu'n benodol yr effeithiau ar bobl LHDTC+ gyda'r amcan bod penderfyniadau dylunio a pholisi yn ystyried y risg o aflonyddu a chynhwysiant.
- yn darparu goleuadau, llinellau gweld clir a gweithgarwch ar hyd llwybrau; cael gwared ar gorneli dall a chreu cynlluniau rhagweladwy. [1]

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) Tir cyhoeddus sy'n fwy diogel ac yn fwy croesawgar

(cadarnhaol) Annog cynllunio, dylunio, ymgysylltu a hyrwyddo cynhwysol

Rhesymu a thystiolaeth ategol

- canfyddiadau am deimlo fel petaech chi'n cael croeso ac yn ddiogel ar y strydoedd. [1][34][38][45]

Priodas a phartneriaeth sifil

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Yn briod neu mewn partneriaeth sifil yw'r statws partneriaeth gyfreithiol mwyaf cyffredin ymysg y boblogaeth 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr, sef 49.7% yn 2021.

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

(dim)

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

≈ Niwtral yn gyffredinol (dim rhwystrau penodol y tu hwnt i anghenion o ran tir y cyhoedd)

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

(dim rhwystrau penodol y tu hwnt i anghenion o ran tir y cyhoedd)

Aelwydydd incwm isel (Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol)

Amcangyfrifon o'r boblogaeth yng Nghymru

Darperir Gradd Gymdeithasol fras yng Nghymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sail cyfrifiad 2021, isod [53]

- AB - Galwedigaethau rheoli, gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd (19.6%)
- C1 - Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol ar lefel goruchwylio, clercol ac iau (32.9%),
- C2 - Galwedigaethau llaw medrus (23.0%)
- DE - Galwedigaethau llaw rhannol fedrus a heb sgiliau a galwedigaethau ar y radd isaf(24.6%)

Diwygiadau perthnasol yng Nghanllawiau 2026

- mae'r canllawiau bellach yn cyfeirio'n benodol at y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 1), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried sut gall penderfyniadau teithio llesol leihau anghydraddoldebau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu buddsoddiad mewn ardaloedd difreintiedig a sicrhau mynediad teg at seilwaith teithio llesol.
- mae'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn defnyddio mynegeion amddifadedd a data tlodi trafnidiaeth wrth flaenoriaethu llwybrau yn y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (Mapiau Llwybrau Presennol a Mapiau Rhwydwaith Integredig gynt) ac yn argymell defnyddio adnodd blaenoriaethu Trafnidiaeth Cymru i asesu'r effaith economaidd-gymdeithasol.
- mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos sut roedd yr ymgysylltu ar gyfer dylunio cynlluniau a datblygu'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn gynhwysol, gan dargedu aelwydydd incwm isel a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn benodol.
- dylai adroddiadau monitro nawr gynnwys metrigau ar sut mae'r gwelliannau teithio llesol o fudd i aelwydydd incwm isel (megis mynediad at waith, addysg a gwasanaethau).

Effaith y Canllawiau diwygiedig (cadarnhaol/negyddol)

(cadarnhaol) Mwy o ecwiti yn y buddsoddiad

(cadarnhaol) Blaenoriaethu buddsoddiad mewn ardaloedd ag anghenion uchel

(cadarnhaol) cynnig mynediad fforddiadwy at swyddi/addysg drwy gerdded/olwyno/beicio

(cadarnhaol) darparu cysylltiadau diogel milltir gyntaf/olaf i drafnidiaeth gyhoeddus;

(cadarnhaol) Ymgysylltiad mwy cynhwysol (gofyniad cryfach i ymgysylltu ag aelwydydd incwm isel a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli)

(cadarnhaol) Cynnydd mewn lefelau gweithgarwch corfforol, lleihau anghydraddoldebau iechyd a dod i gysylltiad â llygredd aer

Rhesymeg a thystiolaeth ategol

- mae pobl sy'n profi tlodi yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar, fel y dangosir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru: mynediad i geir fesul grŵp; [10] a thueddiadau'r Health Foundation o ran mynediad i geir yn ôl incwm [11]
- mae galw am ddewisiadau gwahanol yn bodoli [1] [38]
- mae cydberthynas negyddol rhwng incwm a data digwyddiadau traffig ffyrdd ble cafodd person ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol traffig ffyrdd[54]

Casgliad cyffredinol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

At ei gilydd, mae'r canllawiau'n hyrwyddo cydraddoldeb drwy egluro mesurau lliniaru a safonau dylunio cynhwysol. Lle mae risg yn dal i fodoli (yn enwedig mewn safleoedd bysiau a throedffyrdd parhaus), mae Canllawiau 2026 yn nodi rheolaethau ac yn annog archwiliadau o safleoedd lleol a dulliau dylunio cydweithredol gyda phobl anabl i helpu i atal allgáu [2][3][8]. Cynigir mesurau lliniaru pellach y tu allan i Ganllawiau 2026.

Atodiad C. Prawfesur Gwledig

Mae Canllawiau 2026 wedi cael eu cynhyrchu i wella'r potensial ar gyfer teithiau at ddiben penodol, gan gymell newid dulliau teithio o gerbydau preifat drwy roi cyfleusterau deniadol ar waith ar gyfer teithiau cerdded, olwyno a beicio.

Mae cerdded, olwyno a beicio mewn ardaloedd gwledig weithiau'n cael eu hystyried yn weithgaredd hamdden yn bennaf, yn hytrach na ffordd o gyrraedd cyrchfannau bob dydd. Gall hyn greu heriau ychwanegol wrth geisio annog cerdded, olwyno a beicio ar gyfer teithiau at ddiben penodol.

Er bod yna wahaniaethau rhwng seilwaith cerdded a beicio gwledig a threfol, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â ffactorau ansoddol fel creu lleoedd a chymeriad, yn hytrach nag addasrwydd gwahanol atebion technegol. Nid yw lleoliad y prosiectau, boed y rheini'n ardaloedd gwledig ai peidio, yn cael sylw uniongyrchol yn yr Elfennau Dylunio yn Atodiad G, yn hytrach, maint y llifoedd yw'r gwahaniaeth allweddol sy'n pennu ffactorau megis lefel y gwahanu rhwng dulliau teithio a lled cyfleusterau. Mae ystyried llif yn arwain at ymyriadau sy'n briodol i ardaloedd gwledig a threfol.

Lle bo angen, gwahaniaethwyd rhwng ardaloedd gwledig a threfol, i gydnabod nodweddion gwahanol pob un. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at yr anhawster o leihau cyflymderau a welir mewn ardaloedd gwledig, er gwaethaf cyflwyno terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru. Mae hyn yn cyfeirio at dabl 11.1 yn y canllawiau, sy'n nodi'r lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer beiciau yn dibynnu ar lif y traffig a'r terfyn cyflymder. Gall ardal wledig gyda chyflymder uwch ond llif traffig isel fod yn fwy deniadol i bobl sy'n beicio nag ardal drefol gyda chyflymder is ond llif sylweddol uwch. Mae caniatáu ar gyfer ystyriaethau mewn ardaloedd gwledig yn bwysig wrth feddwl am ymyriadau posibl yn y dyfodol.

Un newid allweddol i'r canllawiau o'r fersiwn flaenorol sy'n ystyried ardaloedd gwledig yw cyflwyno'r Log Penderfyniadau Dylunio yn atodiad L. Er bod hyn yn berthnasol i bob cynllun, mae cymeriad ardaloedd gwledig yn golygu bod gwyro oddi wrth y canllawiau yn fwy tebygol, fel gyda ffyrdd sydd eisoes yn gul yn cael eu cyfyngu ymhellach gan berchnogaeth tir y naill ochr a'r llall. Mae'r Log Penderfyniadau Dylunio yn rhoi mwy o hyder i awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynlluniau mewn ardaloedd gwledig i wyro oddi wrth y canllawiau tra'n sicrhau bod ymyriadau'n parhau i fod yn effeithiol ac yn ddiogel.

Yn fwy cyffredinol, mae'r canllawiau'n adeiladu ar y fersiwn flaenorol o ran dod ag amrywiaeth o fanteision anuniongyrchol, yn enwedig i ddefnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed a phobl sy'n cael eu rhoi dan anfantais yn draddodiadol oherwydd rhwydweithiau trafnidiaeth sy'n canolbwyntio ar geir. Gyda mwy o wasgaredd daearyddol mewn ardaloedd gwledig, mae creu rhwydwaith trafnidiaeth unedig sy'n caniatáu ar gyfer cyfnewid rhwng dulliau teithio yn bwysig iawn. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio'n

benodol ar boblogaethau gwledig megis tlodi tanwydd ac arwahanrwydd, ac sydd hefyd o fudd i grwpiau megis siaradwyr Cymraeg a'r henoed sy'n cael eu gorgynrychioli mewn ardaloedd gwledig.

Gwelliannau ar ôl yr ymgynghoriad sy'n ymwneud â materion gwledig

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cododd thema gyson yn yr ymatebion yn ymwneud â'r tablau sy'n cyfatebu niferoedd y defnyddwyr â gofynion seilwaith teithio llesol. Adroddwyd bod nifer y defnyddwyr yn y drafft ymgynghori yn adlewyrchu'n wael ar nifer y defnyddwyr nodweddiadol yng Nghymru y tu allan i'r dinasoedd mawr, ac o'r herwydd nid oeddent yn bodloni anghenion awdurdodau lleol. Hefyd, roedd nifer o swyddogion Awdurdodau Lleol wedi tynnu sylw at y ffaith bod niferoedd isel iawn o ddefnyddwyr ar lwybrau cyd-ddefnyddio mewn ardaloedd gwledig yn duedd gyffredin, ond nad oedd hyn yn lleihau eu pwysigrwydd ar gyfer cysylltedd lleol.

Mae'r heriau rhesymol hyn wedi arwain at ddiwygiadau sylweddol i Dabl 11.3, sy'n cyfatebu niferoedd defnyddwyr â geometreg gofynnol llwybr cyd-ddefnyddio. Drwy ailasesu nifer y defnyddwyr, dangoswyd y gallai llwybrau cyd-ddefnyddio barhau i chwarae rôl mewn rhai cyd-destunau gwledig pan fo llai o alw a lle nad yw darpariaeth amgen o bosibl yn gymesur. Mae'r penderfyniad hwn yn cydbwyso'r teimlad o allgáu a brofir gan rai defnyddwyr neu lwybrau cyd-ddefnyddio gyda'r angen am fuddsoddiad pragmatig a hyblyg mewn teithio llesol ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae hyn hefyd wedi cael ei wreiddio yn Ffigur 11.1 o Ganllawiau 2026, gyda'r bwriad o gynnig arweiniad a chefnogaeth sylweddol i ddylunwyr ddewis y math mwyaf priodol o seilwaith.

Atodiad D. Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad. Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg


Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Bydd Canllawiau 2026 yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Ynddo, mae'n nodi gofynion ar gyfer ymgysylltu ac ar gyfer arwyddion/dangos y ffordd sy'n wynebu defnyddwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gall gwelliannau teithio llesol ar sail lleoedd a nodir yng Nghanllawiau 2026 gynnal defnydd dyddiol o'r Gymraeg drwy wella mynediad at ysgolion, diwylliant a gwasanaethau lleol.

Ar draws y tair thema, mae'r Canllawiau'n cael yr effaith fwyaf ar thema *3: creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun* (gweler y ddelwedd ar y dudalen nesaf). Mae Cymraeg 2050 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal a thyfu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Datblygiad allweddol yn hyn o beth yw datblygu economi ffyniannus a chynaliadwy, ochr yn ochr ag adeiladu cymunedau a fydd yn elwa o ffyniant ac yn dod yn lleoedd deniadol lle mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi. Mae syniad Donald Appleyard o Strydoedd y Gall Pawb Fyw Arnynt yn dangos y byddai cymdogaethau traffig isel nid yn unig yn cael effaith gadarnhaol ar newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd, ond hefyd, bod rhyngweithio cymdeithasol yn gwella'n ddramatig pan fydd llif y traffig yn lleihau. Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â thema 3 Cymraeg 2050; wrth i'r rhyngweithio cymunedol gynyddu mae'r effaith bosibl ar gynaliadwyedd a hyfywedd y Gymraeg hefyd yn cynyddu. Mae hyn yn galw ar gryfhau'r berthynas rhwng cynllunio ieithyddol a chynllunio defnydd tir [cyfeirnod 1], sy'n rhywbeth mae'r diweddariad hwn gan y Canllawiau yn ceisio ei wella.



Cyfeirnod 1: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

Cyfeirnod 2: https://streets-alive-yarra.org/journal/donald-appleyards-livable-streets/

Atodiad E. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

Cyfleoedd: Systemau draenio cynaliadwy/gerddi glaw, canopi coed brodorol, plannu ar gyfer pryfed peillio, cysylltedd cynefinoedd ar hyd coridorau teithio llesol.

Risgiau: amharu ar gynefinoedd.

Gofynion: defnyddio dyletswydd A6 a chofnodi penderfyniadau bioamrywiaeth; defnyddio cynlluniau cynnal a chadw.

Atodiad F. Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Tystiolaeth a ystyriwyd

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos gwahaniaethau o ran mynediad at geir ar draws grwpiau amddifadedd a demograffig; mae'r Health Foundation yn adrodd bod 32% o bumed tlotaf aelwydydd y DU heb fynediad at gar (o'i gymharu â 7% yn y pumed cyfoethocaf) [10][11]. Mae Sustrans Cymru wedi tynnu sylw at dlodi trafnidiaeth yng Nghymru a'r baich o ran cost o redeg car [14].

Potensial i waethygu anghydraddoldebau

Os na chânt eu gweithredu'n iawn, gallai cynlluniau roi blaenoriaeth i ardaloedd sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu'n dda.

Lliniaru: meini prawf blaenoriaethu llwybrau sy'n pwyso a mesur amddifadedd, lefel isel o fynediad at geir a risg o wrthdrawiad; sicrhau dewisiadau amgen hygyrch pan fo lle ar y stryd yn gyfyngedig.

Potensial i wella canlyniadau

Mae teithiau cerdded/olwyno uniongyrchol mwy diogel ar gyfer addysg, gofal iechyd, manwerthu a gweithleoedd yn lleihau'r baich o ran costau ac yn gwella mynediad at gyfleoedd. Pwysleisir integreiddio â bysiau (safleoedd, cyfnewidfeydd).

Dull monitro

Tracio dosbarthiad buddsoddiad a chanlyniadau ar draws degraddau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; arolygon defnyddwyr yn ôl band incwm lle bo hynny'n ymarferol; monitro diogelwch a defnydd mewn cymunedau incwm isel.

Atodiad G. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – Crynodeb Sgrinio

Penderfynyddion yr effeithir arnynt: gweithgarwch corfforol; risg o niwed/risg o ran diogelwch; dod i gysylltiad ag aer/sŵn; cysur thermol (cysgod/gwres); mynediad at wasanaethau a chyfranogiad cymdeithasol.

Mae adroddiad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU ar effeithiau newid hinsawdd ar iechyd yn pwysleisio risgiau hinsawdd anwastad; gall seilwaith gwyrdd a newid moddol lleihau'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â gwahanol bethau, ac mae dylunio cynhwysol yn gwella mynediad i bobl anabl a phobl hŷn [5].

Cyfeiriadau

[1] Walk Wheel and Cycle Trust (2024). Walking and Cycling Index 2023 – UK aggregate report. https://www.walkwheelcycletrust.org.uk/the-walking-and-cycling-index/

[2] Living Streets (2024). Inclusive design at continuous footways and at bus stops with cycle tracks. https://www.livingstreets.org.uk/policy-reports-and-research/inclusive-design/

[3] Guide Dogs/UCL (2024). Designing for Inclusion – adroddiad llawn. https://www.guidedogs.org.uk/how-you-can-help/campaigning/streets-ahead/#designing-for-inclusion

[4] Transport for London (2024). Bus stop bypass safety review (Mehefin 2024). https://tfl.gov.uk/corporate/transparency/freedom-of-information/foi-request-detail?referenceId=FOI-0418-2627

[5] UKHSA (2023). Health Effects of Climate Change – state of the evidence 2023. https://www.gov.uk/guidance/health-effects-of-climate-change-hecc-report

[6] Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru (2024) Adroddiad Blynyddol; Llywodraeth Cymru Rhaglen Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023-24. https://www.llyw.cymru/pwyllgor-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-cymru-adroddiad-blynyddol-2024

[7] tudalen we: Cyfoeth Naturiol Cymru. Buddion atebion sy'n seiliedig ar natur. https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/strategies-plans-and-policies/benefits-of-nature-based-solutions/?lang=cy

[8] New cycle infrastructure on London's streets Summary report of on-street trials (Gorffennaf 2018). https://tfl.gov.uk/corporate/publications-and-reports/cycling-and-walking#on-this-page-9

[9] Llywodraeth Cymru (2025). Adolygiad Gweinidogol o Chwarae – Adroddiad Cynnydd (Chwefror 2025). https://www.llyw.cymru/adroddiad-cynnydd-ar-yr-adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae-chwefror-2025-html

[10] Arolwg Cenedlaethol Cymru (2022-23). Trafnidiaeth – mynediad at gar fesul grŵp. https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html

[11] Health Foundation (2025). Trends in households without access to a car (tudalen we). https://www.health.org.uk/evidence-hub/transport/transport-trends/trends-in-households-without-access-to-a-car#:~:text=Almost%20one%20in%20three%20(31.8,incomes%20(the%20top%20quintile).

[12] Department for Transport (2024). Reported Road Casualties GB 2023. https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-great-britain-annual-report-2023/reported-road-casualties-great-britain-annual-report-2023#casualties-and-rates-by-road-user-type .

[13] StatsCymru. Damweiniau ffyrdd a digwyddiadau lle cafodd person ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol – Cymru. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents/accidents/ksiroadaccidents-by-area-year

[14] Sustrans Cymru (2022). Gwneud y Cysylltiad – tlodi trafnidiaeth yng Nghymru. https://www.walkwheelcycletrust.org.uk/media/10426/transportpovertypaper-sustrans_wel.pdf .

[15] Tystiolaeth Ysgrifenedig (29 Mehefin 2025) – Gwasanaethau Bysiau [Rhif 2] Bill Mark Philpotts CEng FICE FCIHT. https://bills.parliament.uk/publications/61843/documents/6810

[16] Children's Independent Mobility: an international comparison and recommendations for action (2015) Policy Studies Institute. https://www.nuffieldfoundation.org/project/independent-mobility-and-child-development-2

[17] Arbrawf Torfol (2012) Science Nordic. https://www.sciencenordic.com/children-and-adolescents-denmark-exercise/children-who-walk-to-school-concentrate-better/1379550

[18] StatsCymru (2023) Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran. https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age

[19] Ymddygiadau ffordd iach o fyw: Plant (2022) Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. https://wcpp.org.uk/cy/report/cerrig-milltir-cenedlaethol/

[20] Dementia-friendly environment checklist, Alzheimer's Society (tudalen we). https://www.alzheimers.org.uk/get-involved/dementia-friendly-resources/organisations/dementia-friendly-environment-checklist

[21] Dementia-friendly environments: guidance for assessors - NHS England Digital (tudalen we). https://digital.nhs.uk/data-and-information/areas-of-interest/estates-and-facilities/patient-led-assessments-of-the-care-environment-place/dementia-friendly-environments-guidance-for-assessors

[22] Inclusive Mobility (2021) Department for Transport. https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-mobility-making-transport-accessible-for-passengers-and-pedestrians

[23] Llwybr Newydd (2021) Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021

[24] Anxiety in persons with visual impairment (2020) Binder KW, Wrzesińska MA, Kocur J. https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32772060/

[25] Papur Briffio: Why Bus stop bypasses are sometimes essential (2025) Wheels for Wellbeing. https://wheelsforwellbeing.org.uk/disabled-peoples-mobility-why-bus-stop-bypasses-are-sometimes-essential-briefing/

[26] Challenges faced by people with disabilities - Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi (2024)

[27] UK Women's Budget Group (2021). Towards Gender-Inclusive & Sustainable Transport. https://www.wbg.org.uk/publication/towards-gender-inclusive-and-sustainable-transport-systems/

[28] Children's play and independent mobility in 2020: results from the British Children's Play Survey (2021) Dodd, H. F., Fitzgibbon, Watson, and Nesbit, R. J. https://www.mdpi.com/1660-4601/18/8/4334

[29] Reported road casualties in Great Britain: pedestrian factsheet, 2023, Department for Transport. (Cyhoeddwyd 26 Medi 2024). https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-great-britain-pedestrian-factsheet-2023/reported-road-casualties-in-great-britain-pedestrian-factsheet-2023#which-vehicles-are-involved-in-collisions-with-pedestrians

[30] Reported road casualties in Great Britain: pedal cycle factsheet, 2021 Department for Transport (Cyhoeddwyd 29 Medi 2022). https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-great-britain-pedal-cyclist-factsheet-2021/reported-road-casualties-in-great-britain-pedal-cycle-factsheet-2021

[31] 'Justice not charity' - the blind marchers who made history BBC (cyhoeddwyd 30 Ebrill 2020). https://www.bbc.co.uk/news/disability-52477587

[32] Who put that there! The barriers to blind and partially sighted people getting out and about Royal National Institute for the Blind (2015). https://media.rnib.org.uk/documents/Who_put_that_there_Report_February_2015.pdf

[33] Wheels for Wellbeing (2020–2025). Guide to Inclusive Cycling. https://wheelsforwellbeing.org.uk/our-campaigns/campaigning/guide/

[34] No Grey Area (2025) Cymorth i Ferched Cymru. https://welshwomensaid.org.uk/cy/news/welsh-womens-aid-release-new-public-sexual-harassment-research/

[35] 'Women in politics and public life' Llyfgrell ymchwil Tŷ'r Cyffredin, Briff Ymchwil, Isabel Buchanan (4 Mawrth 2025). https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN01250/SN01250

[36] Conceptions in England and Wales (2022) Swyddfa Ystadegau Gwladol. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/conceptionandfertilityrates/bulletins/conceptionstatistics/2022#:~:text=6.,per%201%2C000%20women%20in%202022

[37] Women in Transport report exposes gender inequality and calls for ESG action (2024) Chartered Institute of Logistics and Transportation (erthygl ar y we). https://ciltuk.org.uk/News/Latest-News/ArtMID/6887/ArticleID/37525/Women-in-Transport-report-exposes-gender-inequality-and-calls-for-ESG-action#:~:text=Ruth%20Cadbury%20MP%2C%20Chair%20of,the%20deep%2Drooted%20gender%20disparities

[38] National Travel Attitudes Study (NTAS) Wave 9: Cycling – (Cyhoeddwyd 18 Ionawr 2024) Department for Transport. https://www.gov.uk/government/statistics/national-travel-attitudes-study-wave-9/national-travel-attitudes-study-ntas-wave-9-cycling

[39] Violence against Women and Girls, Infrastructure and Cities Briefing Paper (2017) Infrastructure and Cities for Economic Development, Department for International Development. https://www.gov.uk/government/publications/violence-against-women-and-girls-infrastructure-and-cities-briefing-note

[40] Gwasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru, Briff Ymchwil (Mehefin 2024) Ymchwil y Senedd. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/gwasanaethau-niwroddatblygiadol-yng-nghymru/

[41] Adroddiad Hearing-Matters: Wales-Supplement (2020) Royal National Institute for Deaf People. https://rnid.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/Hearing-Matters-report-_-Wales-Supplement.pdf

[42] Y Comisiwn Ewropeaidd (2023) datganiad i'r wasg ar y we. https://transport.ec.europa.eu/news-events/news/2023-figures-show-stalling-progress-reducing-road-fatalities-too-many-countries-2024-03-08_en

[43] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022), Poverty and social exclusion: review of international evidence on transport disadvantage, Irene Bucelli ac Abigail McKnight. https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/211026-WCPP-Poverty-Review-Transport-disadvantage.pdf

[44] Motonormativity: How social norms hide a major public health hazard (2023) Ian Walker Ysgol Seicoleg, Prifysgol Abertawe; Alan Tapp, Ysgol Fusnes Bryste, University of the West of England. https://benzinazero.wordpress.com/wp-content/uploads/2024/03/motonornativity-authorfinalversion.pdf

[45] Community Research in East London , 2023, Safety and Belonging for Women and Girls in Public Spaces. https://live-qeop.pantheonsite.io/sites/default/files/attachments/Safety%20and%20Belonging%20for%20Women%20and%20Girls%20in%20Public%20Spaces%20-%20Community%20Research%20in%20East%20London%20-%20October%202023.pdf

[46] Royal National Institute for Blind People Cymru Annual Impact Report 2022-2023 (Tudalen we). https://www.rnib.org.uk/professionals/research-and-data/reports-and-insight/rnib-cymru-annual-impact-report-2022-2023/

[47} Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) (diwygiedig) [HTML] | LLYW.CYMRU

[48] The Pedestrian Pound (2024) Living Streets. https://www.livingstreets.org.uk/policy-reports-and-research/pedestrian-pound/

[49] Disabled citizen's inquiry (2023) Walk Wheel and Cycle Trust. https://www.sustrans.org.uk/our-blog/research/disabled-citizens-inquiry/

[50] Criado-Perez, C. (2019). Invisible women: Data bias in a world designed for men. Efrog Newydd: Abrams Press. (Llyfr yn unig – cynnwys ddim ar gael ar y we).

[51] Trafnidiaeth (Arolwg Cenedlaethol Cymru): (Ebrill 2022 i Fawrth 2023) Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/trafnidiaeth-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html.

[52] Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html

[53] Gradd Gymdeithasol Fras, Cymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021). https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/approximatedsocialgradeenglandandwales/census2021).

[54] Reported road casualties Great Britain: Casualties and deprivation (2023) HM Government, Department for Transport. https://www.gov.uk/government/statistics/reported-road-casualties-great-britain-casualties-and-deprivation-factsheet-england/reported-road-casualties-great-britain-casualties-and-deprivation.

[55] 'Too hot to shop – UK puts shopping on hold for heatwave' (2022) Michael Feeley, yn yr E-Commerce Age. https://ecommerceage.co.uk/ecommerce-age/too-hot-to-shop-uk-puts-shopping-on-hold-for-heatwave/

[56] Adolygiad Stern (2006) Trysorlys Ei Fawrhydi. https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20100407172811/https:/www.hm-treasury.gov.uk/stern_review_report.htm

[57] Floating Bus Stop Provision and Design.
https://www.gov.uk/government/publications/floating-bus-stops-provision-and-design/floating-bus-stops-provision-and-design